

GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN

DYDDIAD:	19 ^{eg} Gorffennaf 2004
ADRODDIAD GAN:	Y PRIF SWYDDOG TÂN
DIBEN YR ADRODDIAD:	Rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am ganfyddiadau'r arolwg barn gyhoeddus a gynhaliwyd rhwng Hydref 2003 ac Ionawr 2004.

1. **GWYBODAETH**

1.1 Cefndir

Yn unol â'r cyfarwyddyd statudol ynghylch Dangosydd Perfformiad Gwerth Gorau (DPGG) 3, cynhaliwyd arolwg barn gyhoeddus ar hap y gaeaf diwethaf, i fesur pa ganran o bobl yn ardal yr awdurdod sy'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon gyda'r 'ffordd mae'r Awdurdod yn rhedeg pethau' (dyna'r geiriau a ragnodwyd).

Heblaw am y 'cwestiynau gosod' ar fodlonrwydd gyda'r Awdurdod, a phroffil personol y rhai a atebodd, roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau ychwanegol yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar y gwasanaeth.

I gyd, roedd pump ar hugain o awdurdodau tân ac achub wedi dewis comisiynu'r un cwmni allanol i anfon yr holiaduron a'r llythyrau atgoffa allan ar eu rhan, ac i lunio adroddiad di-enwau ar y canfyddiadau. At ddiben adrodd, cafodd y canlyniadau eu pwysoli'n ystadegol yn unol â chyfarwyddyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (yr ODPM).

Mae rhaid ail-wneud yr arolwg yma bob tair blynedd, a gwnaethpwyd yr un diwethaf (y cyntaf) yn 2000.

1.2 Dosbarthu

Cafodd 4,000 o holiaduron eu postio i gyfeiriadau ar hap yng Ngogledd Cymru, a daeth 1,385 o atebion yn ôl. Nid oedd pawb wedi ateb pob cwestiwn.

1.3 Y Canlyniadau

Yn Atodiad 1 ceir crynodeb o'r canlyniadau, gan gymharu, lle bo hynny'n berthnasol, gyda chanlyniadau arolwg 2000.

1. **GWYBODAETH** (parhad)

1.4 Y prif ganfyddiadau (parhad)

1.4.1 Bodlonrwydd y Cyhoedd

Mae bodlonrwydd y cyhoedd gyda'r ffordd mae'r awdurdod yn rhedeg pethau yn dal yn gymharol uchel.

Roedd pobl yn y grŵp oedran hŷn (75 oed a throsodd), a phobl sydd â Chymraeg yn ddewis iaith iddynt, yn tueddu i roi atebion mwy cadarnhaol, yn arbennig o ran eu bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth a cheisio cael gweithlu amrywiol sy'n cyflogi mwy o ferched a phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

1.4.2 Mesurau Amddiffyn yn y Cartref

Mae gan 90% o'r rhai a atebodd larymau/canfyddwyr mwg yn eu cartref (er nid o reidrwydd ar bob llawr yn eu cartref) o'i gymharu â 86% yn yr un arolwg dair blynedd yn ôl. Mae gan 30% offer diffodd tân, o'i gymharu â 13% yn 2000. Fodd bynnag, er gwaethaf yr ymgyrchoedd i annog pobl i ystyried sut y buasent yn dianc o'u cartrefi petai yna dân, roedd canran y bobl oedd yn wir wedi gwneud hynny wedi disgyn 9% dros y tair blynedd ddiwethaf.

1.4.3 Codi tâl am wasanaethau

Tra roedd bron pawb (97%) yn meddwl y byddai'n beth derbyniol i godi tâl am alwadau diangen parhaus, a dwy ran o dair yn meddwl y byddai'n beth derbyniol codi tâl am achub anifeiliaid, roedd hyn yn mynd i lawr i dan hanner y bobl oedd yn meddwl hynny am achub pobl o lefydd peryglus neu fynd at ddigwyddiadau cemegol, a dim ond lleiafrif (17%) fyddai eisiau codi tâl am fynd at ddamweiniau ar y ffyrdd.

1.4.4 Gyrfa yn y Gwasanaeth

Mae'r gred y byddai'r gwasanaeth tân ac achub yn darparu gyrfa dda yn glir iawn, er mai dim ond canran bychan o bobl oedd wedi ystyried y byddent yn dymuno ymuno â'r gwasanaeth eu hunain. Roedd y ganran o ferched oedd wedi ystyried hyn go iawn fel gyrfa iddynt eu hunain wedi dyblu ers yr arolwg diwethaf dair blynedd yn ôl.

Mae'r mwyafrif (tua 60%) o bobl yn meddwl ei bod yn bwysig cyflogi merched a phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol fel diffoddwyr tân.

1.4.5 Polisi Dwyieithrwydd

Mae gan fwyafrif llethol (96%) y bobl farn gadarnhaol am ein polisi dwyieithrwydd, ac yn hyderus y gallant gysylltu â ni yn eu dewis iaith.

1. **GWYBODAETH** (*parhad*)

1.4 Y Prif Ganfyddiadau (*parhad*)

1.4.6 Gwybodaeth a Chyngor gan y Gwasanaeth

Byddai'n well gan fwyafrif clir (97%) o bobl gael gwybodaeth am ddiogelwch tân yn y cartref gan y gwasanaeth tân yn hytrach nag o unrhyw le arall.

Ar y cyfan, mae pobl yn gwybod y gallant gael cyngor ar ddiogelwch tân gan y Gwasanaeth, er bod hyn yn llai yn achos pobl hŷn a phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Yn gyffredinol, roedd pobl yn meddwl y byddai'n eithaf hawdd cael gwybodaeth gan y Gwasanaeth, gan gynnwys pobl sydd ag anabledd a phobl a fyddai efallai yn dweud eu bod yn dymuno dewis rhwng Cymraeg neu Saesneg.

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn dymuno parhau i gysylltu â ni i gael gwybodaeth trwy ffôn neu lythyr, ac ychydig iawn o bobl fyddai'n dymuno defnyddio e-bost, ffacs neu bwyntiau gwybodaeth cyffwrdd sgrîn. Roedd tua un rhan o dair o bobl yn dymuno gallu cael gwybodaeth trwy ddod i orsaf dân yn bersonol, ac ychydig dros chwarter yn dymuno cael gwybodaeth trwy'r wefan.

1.4.7 Amseroedd Ymateb

O ran yr amseroedd ymateb, roedd pobl – ac efallai nad yw hyn yn syndod – yn tueddu i ddisgwyl amseroedd ymateb cynt mewn ardaloedd trefol nag mewn ardaloedd gwledig.

2. **ARGYMHELLIAD**

2.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r sylwadau a wneir a phrif ganfyddiadau'r arolwg barn gyhoeddus 2003/04.

■ **“Gan ystyried pob peth, pa mor fodlon ydych chi gyda’r ffordd mae’r Awdurdod yn rhedeg pethau?”**

Yn yr arolwg yn 2000, dywedodd 74% eu bod yn gyffredinol fodlon, a dywedodd 25% nad oeddynt yn fodlon nac yn anfodlon.

Erbyn 2003, roedd y ganran a ddywedodd eu bod yn gyffredinol fodlon wedi codi i 77%, gydag 19% yn dweud nad oeddynt yn fodlon nac yn anfodlon. (Mae’r ffigwr yma cyn pwysoli’n ystadegol yn agosach at 80%.)

A 91% ohonynt yn rhoi atebion cadarnhaol, y rhai dros 75 oed oedd yn rhoi’r gyfradd uchaf o atebion cadarnhaol, tra mai 68% o bobl rhwng 30-44 oed oedd yn rhoi atebion cadarnhaol.

Roedd canran y bobl â Chymraeg yn ddewis iaith iddynt yn uwch o ran bod yn fodlon, o’i gymharu â phobl sydd â Saesneg yn ddewis iaith iddynt – 88% o’i gymharu â 76%. Roedd y bobl yn disgrifio eu hunain fel gwyn yn gyffredinol yn fwy bodlon na’r rhai oedd yn disgrifio eu hunain fel nid gwyn (78% o’i gymharu â 43%). Roedd pobl wyn yn llai tebygol o ddweud nad oeddynt yn fodlon nac yn anfodlon (19% o’i gymharu â 57% o’r bobl nad ydynt yn wyn).

■ **Larymau/Canfyddwyr Mwg**

Ar y cyfan, roedd gan 90% o’r bobl ryw fath o larwm mwg yn eu cartref, o’i gymharu ag 86% yn yr arolwg dair blynedd yn ôl.

Roedd 55% wedi profi eu larwm mwg o fewn y mis diwethaf. O blith y 2% o bobl nad oedd erioed wedi profi eu larwm mwg, roedd eu chwarter yn disgrifio eu hunain fel ‘di-waith’.

■ **Llwybrau dianc**

Ar y cyfan, roedd 65% o’r bobl wedi cynllunio llwybr dianc petai yna dân, o’i gymharu â 74% yn yr arolwg dair blynedd yn ôl. Nid oedd 64% o’r bobl oedd yn disgrifio eu hunain fel ‘di-waith’ wedi cynllunio ffordd i ddianc.

■ **Mesurau eraill**

Roedd gan 30% o bobl offer diffodd tân, a dim ond 15% oedd â blancedi tân, o’i gymharu â 13% a 26% dair blynedd yn ôl.

■ **Codi tâl am wasanaethau lle nad oes tân**

Roedd 97% o’r bobl yn meddwl y byddai’n beth rhesymol codi tâl am alwadau diangen parhaus o’r un cyfeiriad.

Byddai 61% yn barod i dalu am achub anifeiliaid oedd wedi’u caethiwo, ond dim ond 47% oedd yn meddwl y byddai’n rhesymol gwneud hynny am achub pobl o lefydd peryglus.

Roedd 45% yn meddwl y byddai’n beth rhesymol codi tâl am fynd at ddigwyddiadau cemegol, ond dim ond 17% oedd yn meddwl y byddai’n rhesymol gwneud hynny am fynd at ddamweiniau ar y ffordd.

■ **Delwedd y Gwasanaeth**

Dywedodd 76% o'r bobl y byddent yn argymhell gyrfu gyda'r gwasanaeth tân, er mai dim ond 15% a ddywedodd eu bod nhw wedi ystyried hynny fel gyrfu bosib iddyn nhw eu hunain. Roedd yn amlwg fod canran y merched oedd wedi ystyried hynny wedi dyblu ers yr arolwg diwethaf, i 10%. Efallai'n fwy arwyddocaol, roedd canran lawer uwch o bobl â Chymraeg yn ddewis iaith iddynt wedi ystyried ymuno na'r rhai â Saesneg yn ddewis iaith iddynt – 38% o'i gymharu ag 11%, ac 85% yn ei argymhell fel gyrfu o'i gymharu â 74%.

■ **Cydraddoldeb a'r Gweithlu - Rhyw**

Mae 60% o bobl yn gyffredinol yn meddwl ei bod yn bwysig inni recriwtio merched i ymladd tân (62% yn yr arolwg diwethaf), neu, o'i roi mewn geiriau eraill, 61% o ferched a 57% o ddynion. Tra bod canran y merched sydd o'r farn yma wedi disgyn 9% dros y tair blynedd diwethaf, roedd canran y dynion oedd yn meddwl hyn, yn wir, wedi codi 2% yn yr un cyfnod.

Yn ddiddorol, yn y grŵp oedran, tra bod 67% o'r bobl sydd dros 75 yn meddwl bod hyn yn bwysig, dim ond 57% o bobl rhwng 18-24 oed oedd yn meddwl hynny.

Y gwahaniaeth mawr yma, fodd bynnag, yw tra bod 78% o'r bobl sydd â Chymraeg yn ddewis iaith iddynt o'r farn fod hyn yn bwysig, dim ond 57% o'r rheini sydd â Saesneg yn ddewis iaith iddynt sydd o'r un farn.

■ **Cydraddoldeb a'r Gweithlu – Ethnigrwydd**

Gwelsom ffigurau tebyg mewn materion yn ymwneud ag ethnigrwydd. Mae 59% o'r bobl yn meddwl ei bod yn bwysig inni recriwtio grwpiau ethnig lleiafrifol fel diffoddwyr tân, a 64% o ferched a 52% o ddynion yn meddwl hyn. Roedd canran y bobl sy'n eu disgrifio eu hunain fel "nid gwyn" a chanran y bobl sy'n eu disgrifio eu hunain fel gwyn oedd yn meddwl hyn yn union yr un fath – 59%.

Fodd bynnag, unwaith eto roedd canran uwch o'r grŵp oedran hyn (75 a throsodd) yn meddwl bod hyn yn bwysig na'r rhai yn y grŵp oedran iau (18-24 oed) – 68% o'i gymharu â 60%.

Ac eto, yn adleisio canfyddiadau i'r cwestiwn ar ryw, roedd 68% o'r rhai sydd â Chymraeg yn ddewis iaith iddynt, a 57% o'r rhai sydd â Saesneg yn ddewis iaith iddynt yn teimlo ei bod yn bwysig recriwtio pobl o grwpiau lleiafrifol.

■ **Dwyieithrwydd Cymraeg a Saesneg**

Mae ein polisi dwyieithrwydd wedi ymrwmo i drin y ddwy iaith yn gyfartal, ac mae'r mwyafrif llethol (96%) yn ystyried bod ein delwedd ddwyieithog yn dda iawn neu'n eithaf da.

Roedd 85% o'r bobl a atebodd gwestiwn am ba iaith yw eu dewis iaith, yn dweud bod yn well ganddynt siarad Saesneg.

O'r bobl a ddywedodd mai Saesneg yw eu dewis iaith, roedd 96% yn meddwl bod ein delwedd ddwyieithog yn dda iawn neu'n eithaf da, a dywedodd 92% o'r rhai sydd â Chymraeg yn ddewis iaith iddynt yr un peth.

Roedd 96% o'r rhai a atebodd yn hyderus y byddent, wrth gysylltu â'r Gwasanaeth, yn cael cynnig gwybodaeth yn eu dewis iaith, ac roedd 95% yn hyderus y byddent yn cael cynnig y dewis o siarad neu ohebu yn eu dewis iaith gyda'r person perthnasol.

■ **Pwy fyddai orau i ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch tân yn y cartref**

Roedd yn well gan 97% dderbyn gwybodaeth am ddiogelwch tân gan y gwasanaeth tân yn hytrach na gan gwmni masnachol (12%), cwmni yswiriant (9%), ffrind (3%), mudiad gwirfoddol lleol (12%) neu adran o'r cyngor (15%).

■ **Argaeledd cyngor ar ddiogelwch tân**

Mae 66% o'r bobl yn gwybod bod y gwasanaeth yn darparu cyngor ar ddiogelwch tân, ac mae hynny'n gynnydd o 10% ers y flwyddyn 2000. Fodd bynnag, dim ond 50% o'r bobl dros 75 oed sy'n gwybod bod cyngor ar gael, o'i gymharu ag 87% o bobl rhwng 18-24 oed.

Felly hefyd, hanner gymaint o bobl (34%) o darddiad 'nid gwyn' sy'n gwybod bod cyngor ar gael, o'i gymharu â phobl o darddiad gwyn (67%).

■ **Gwasanaethau eraill gan y Gwasanaeth Tân ac Achub**

Mae canran uchel o bobl yn gwybod ein bod yn darparu amrywiaeth o wasanaethau argyfwng nad ydynt yn ymwneud â thân. Mae 94% o bobl yn gwybod ein bod yn achub pobl o ddamweiniau ar y ffyrdd a llifogydd, mae 91% yn gwybod ein bod yn achub anifeiliaid sydd wedi'u caethiwo, a 90% yn gwybod bod gennym ni ran mewn rheoli damweiniau cemegol. Fodd bynnag, dydy 24% ddim yn sylweddoli ein bod ni'n achub pobl o wahanol sefyllfaoedd eraill.

■ **Cael gwybodaeth a chyngor**

Cymharol isel yw nifer y bobl sy'n gwybod bod gwybodaeth am berfformiad ar gael (19%), penderfyniadau allweddol (15%) a chost y gwasanaeth (27%), ond mae canran uwch (52%) yn gwybod y gallant gael cyngor ar archwilio adeiladau masnachol a busnes. Fodd bynnag, dim ond 16% oedd wedi ceisio'r fath yma o wybodaeth yn ystod y 12 mis blaenorol.

Fodd bynnag, o'r bobl nad oedd wedi ceisio cael yr wybodaeth yma, roedd 87% yn ddigon bodlon y byddai ar gael yn eithaf rhwydd neu'n rhwydd iawn. Roedd 91% o'r bobl sydd ag anabledd sy'n cyfyngu ar eu gweithgarwch yn rhoi atebion cadarnhaol. Roedd 85% o'r bobl sydd â Chymraeg yn ddewis iaith iddynt yn meddwl bod argaeledd gwybodaeth yn dda, ac 88% o'r bobl sydd â Saesneg yn ddewis iaith iddynt yn meddwl hynny.

Peth arwyddocaol efallai yw mai'r grŵp 'anfodlon' oedd hefyd yr is-grŵp mwyaf oedd yn meddwl nad oedd gwybodaeth yn 'hawdd ei gael'.

Ychydig iawn o bobl oedd yn dymuno cael gwybodaeth trwy ebost (7%), ffacs (1%) neu bwynt gwybodaeth cyffwrdd sgrîn (8%). Y ffefrynnau oedd dros y ffôn (45%), post/llythyr (41%), ac ymweld â Gorsaf Dân (31%). Roedd 26% o'r bobl yn ffafrio cael gwybodaeth trwy'r wefan.

■ Yr Amseroedd Ymateb a ddisgwylir

O ran yr amseroedd ymateb, roedd yr arolwg yn dangos bod pobl yn tueddu i ddisgwyl amseroedd cyrraedd cynt mewn ardaloedd trefol na gwledig. Tra bod 37% o'r bobl yn meddwl mai 5-9 munud ddylai'r amser ymateb hwyaf fod mewn ardal drefol, dim ond 11% oedd yn disgwyl hyn mewn ardaloedd gwledig. I'r gwrthwyneb, tra bod 28% o'r bobl yn meddwl y byddai 15-19 munud yn rhesymol mewn ardaloedd gwledig, dim ond 12% oedd yn disgwyl hyn mewn ardaloedd trefol.

Mae'r holl ganlyniadau wedi cael eu pwysoli'n ystadegol yn ôl canllawiau'r ODPM.